# CYLCHLYTHYR RHIENI

Gwanwyn 2026

Gyrfa Cymru
Careers Wales

**Ar gyfer rhieni a gofalwyr pobl ifanc mewn addysg brif ffrwd**

## Croeso

Rydym wrth ein bodd yn cyflwyno rhifyn gwanwyn 2026 o'n Cylchlythyr Rhieni/Gofalwyr i chi, a grëwyd yn arbennig ar gyfer rhieni a gofalwyr pobl ifanc mewn addysg brif ffrwd. Yn y rhifyn hwn, fe welwch ddiweddariadau defnyddiol, adnoddau defnyddiol, a syniadau a gynlluniwyd i gefnogi eich taith chi a'ch plentyn drwy'r blynyddoedd uwchradd a thu hwnt.

P'un a yw'ch plentyn yn paratoi ar gyfer penderfyniadau allweddol ym mlynyddoedd 9 i 12, yn ystyried opsiynau ar ôl gadael addysg, neu'n edrych ar brentisiaethau, gobeithiwn y bydd y cylchlythyr hwn yn darparu ysbrydoliaeth a chyngor ymarferol i'r ddau ohonoch.



# Llais rhieni



Diolch i'r holl rieni a gofalwyr a gymerodd yr amser i gwblhau ein holiadur rhieni. Mae eich adborth yn amhrisiadwy a bydd yn helpu i lunio sut rydym yn datblygu a gwella ein gwasanaethau yn y dyfodol. Dyma gipolwg ar yr hyn a ddywedoch chi wrthym ni:

- **Mae'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn rhieni a gofalwyr dysgwyr ym mlynyddoedd 7-11.**
- **Mae'r gwasanaethau sydd fwyaf diddorol i chi yn cynnwys:**
  - y cylchlythyr rhieni/gofalwyr tymhorol..
  - help i gefnogi eich plentyn i wneud penderfyniadau gyrfa.
  - help i ddeall sut mae gwahanol bynciau'n berthnasol i wahanol swyddi.
  - deall mwy am swyddi yn y dyfodol.
- **Mynegodd pob rhiant a gofalwr ddiddordeb mewn cymryd rhan mewn gweithgareddau ymgynghori pellach.**
- **Roedd yr adborth ar y gwasanaethau a dderbyniwyd gan Gyrfa Cymru yn gadarnhaol dros ben.**

Rydym wedi ymrwymo i ddefnyddio eich adborth i sicrhau bod ein gwasanaethau wir yn diwallu anghenion pobl ifanc a'u rhieni a'u gofalwyr. Mae eich barn yn bwysig i ni, ac rydym bob amser yn croesawu cyfraniadau pellach. Mae'r arolwg yn parhau ar agor, felly os nad ydych chi wedi cymryd rhan eto - neu os oes gennych chi fwy i'w rannu - gallwch ddod o hyd iddo yma.

# Rhieni - mae rhan o'n gwefan yn arbennig ar eich cyfer chi

Mae rhieni a gofalwyr yn chwarae rhan allweddol wrth gefnogi plant i wneud penderfyniadau am yrfaoedd ac Gall ein gwefan eich helpu beth bynnag yw eich plentyn. Fe welwch chi syniadau, gwybodaeth ac offer i gefnogi plant ar bob cam - o'r ysgol gynradd hyd at pan fyddan nhw'n chwilio am swydd.



## Cynradd

Dewch o hyd i syniadau ac adnoddau i archwilio byd gwaith gyda phlant iau.



## Blynyddoedd 7-9

Dysgwch fwy am ddewis opsiynau.



## Blynyddoedd 10 ac 11

Mynnwch wybodaeth am y posibiliadau ar ôl blwyddyn 11 a darganfyddwch sut rydym yn cefnogi eich plentyn hefyd.



## Coleg a Chweched Dosbarth

Darganfyddwch ffyrdd o gefnogi eich plentyn iddo benderfynu beth i'w wneud nesaf.

# Camau a chyd-destunau eraill

Mae gennym hefyd wybodaeth i rieni plant:

- Sydd wedi gadael yr ysgol neu'r coleg
- Sydd ag anghenion dysgu ychwanegol
- Sy'n cael eu haddysgu gartref

# Archwilio syniadau gyrfa

Beth bynnag fo'u hoedran neu eu sefyllfa, mae sgwrsio â'ch plant am bynciau maen nhw'n eu hastudio, neu swyddi sydd ar gael yn chwarae rhan bwysig wrth eu helpu i feddwl am eu dyfodol.

Mae'n eu helpu i archwilio ac ystyried syniadau a bod yn fwy parod i wneud penderfyniadau.
Mae siarad gyda'ch gilydd hefyd yn eich helpu chi'ch dau i ddeall eu meddylfryd presennol a'r camau nesaf posibl.

Mae gennym ni wahanol ddulliau cychwyn sgwrs i'ch helpu chi yn dibynnu ar a oes gan eich plentyn:


Dim syniadau gyrfa


Rhai syniadau gyrfa


Syniadau gyrfa clir

Fe welwch chi hefyd awgrymiadau ar gyfer sgyrsiau cadarnhaol a throsolwg o'n hoffer a'n cwisiau a sut y gallech chi eu defnyddio gyda'ch plentyn.

## Pethau eraill y byddwch chi'n dod o hyd iddyn nhw yn ein hadran 'Rhieni'

Gwybodaeth am:

- Beth mae cynghorydd gyrfa yn ei wneud, y gefnogaeth rydyn ni'n ei chynnig a'r manylion rydyn ni'n eu cadw
- Profiad gwaith
- Y cwricwlwm a chymwysterau
- Llwybrau gyrfa
- Dewisiadau ariannu ar gyfer cyrsiau yng Nghymru

Ac awgrymiadau i:

- Eich helpu i gefnogi eich plentyn i wneud penderfyniadau gyrfa da
- Defnyddio gwybodaeth am y farchnad swyddi i gefnogi penderfyniadau gyrfa ar wahanol gamau
- Paratoi ar gyfer diwrnod y canlyniadau

## Rhannwch eich meddyliau

Byddem wrth ein bodd yn clywed beth yw eich barn ar y cynnwys i rieni ar ein gwefan.
Bydd yr arolwg byr iawn hwn yn ein helpu i ddeall eich anghenion a gwneud gwelliannau.

# Cynllunio gyrfa

## Blwyddyn 9

Mae Blwyddyn 9 yn gyfnod allweddol i ddysgwyr wrth iddyn nhw ddechrau ystyried eu hopsiynau pwnc TGAU. Anogwch eich plentyn i feddwl am ei ddiddordebau, ei gryfderau, ac unrhyw syniadau gyrfa sydd ganddo eisoes. Gall cael sgyrsiau agored gartref ei helpu i deimlo'n fwy hyderus wrth wneud dewisiadau a fydd yn llunio ei astudiaethau a'i gyfleoedd yn y dyfodol. Cymerwch olwg ar ein fideo i gefnogi rhieni gyda dewisiadau eu plentyn.



## Blwyddyn 10

Mae Blwyddyn 10 yn amser da i edrych i'r dyfodol a dechrau paratoi ar gyfer yr hyn sy'n dod nesaf. Cefnogwch eich plentyn i ddod o hyd i leoliad profiad gwaith neu ymgymryd â swydd ran-amser, gan fod hyn yn rhoi cipolwg gwerthfawr ar realiti bywyd gwaith a gall ei ysbrydoli i anelu at yrfa neu ddiwydiant penodol. Bydd ymdrech ac ymrwymiad eich plentyn i'w astudiaethau TGAU yn helpu i baratoi'r ffordd ar gyfer addysg bellach, prentisiaethau, neu gyfleoedd cyflogaeth. Gall cydbwyso gwaith ysgol â phrofiad ymarferol gryfhau ei hyder ac ehangu ei orwelion.

## Blwyddyn 11

Wrth i'ch plentyn ddechrau blwyddyn 11, bydd yn dechrau gwneud penderfyniadau gwybodus am ei gamau nesaf. Erbyn hyn, dylai fod wedi eistedd i lawr gyda chynghorydd gyrfa ar gyfer cyfweliad gyrfaoedd un-i-un. Nid dim ond cyfarfod ysgol arall yw hwn - mae'n gyfle i'ch plentyn rannu ei ddyheadau, archwilio cyfleoedd, a chlywed gan arbenigwr cymwys am farchnadoedd swyddi'r dyfodol a diwydiannau sy'n dod i'r amlwg. Beth am gael sgwrs gyda'ch plentyn am yr hyn a drafodwyd a'i helpu i weithredu ar unrhyw argymhellion o'r cyfarfod?

## Blwyddyn 12

Mae Blwyddyn 12 yn nodi dechrau posibiliadau cyffrous. Nawr yw'r amser delfrydol i'ch plentyn ddechrau meddwl o ddifrif am ei ddyfodol. Mae tymor yr haf yn dod â llu o ddiwrnodau agored prifysgolion - perffaith i ddarpar fyfyrwyr fwynhau awyrgylch y campws a chasglu gwybodaeth hanfodol. Mae hwn hefyd yn amser da i ymchwilio i gyllid myfyrwyr, fel eich bod chi'n barod am yr hyn sydd o'ch blaenau.

## Yn barod ar gyfer byd gwaith?

Efallai bod eich plentyn yn paratoi i adael addysg yr haf hwn. Tybed beth sy'n dod nesaf? Rydyn ni yma i'ch cefnogi chi'ch dau ar y daith i gyflogaeth. Gall ein cynghorwyr arbenigol:

- **helpu eich plentyn i bwyso a mesur ei opsiynau - boed hynny'n brentisiaeth, hyfforddiant pellach, dechrau busnes, neu gamu'n syth i fyd gwaith.**
- **darparu canllawiau ar ysgrifennu CV sy'n manylu ar ei gryfderau a'i botensial a rhoi awgrymiadau ar gyfer cyfweliadau a cheisiadau.**
- **rhannu swyddi gwag sydd ar gael drwy ein Bwletin Swyddi | Gyrfa Cymru, fel y gall eich plentyn wneud ei orau glas wrth ddechrau ei bennod nesaf.**



# Canllaw Addysg Uwch

## Cefnogi eich plentyn gyda cheisiadau prifysgol

Mae penderfynu a ddylid mynd i'r brifysgol yn garreg filltir gyffrous, ond gall hefyd deimlo'n llethol - i bobl ifanc a'u teuluoedd. Fel cynghorydd gyrfa, rwy'n aml yn clywed rhieni'n dweud eu bod nhw eisiau helpu ond ddim yn siŵr ble i ddechrau. Mae fy nghanllaw byr yn dwyn ynghyd ffynonellau gwybodaeth dibynadwy ochr yn ochr ag awgrymiadau ymarferol i'ch helpu i deimlo'n hyderus wrth gefnogi'ch plentyn drwy'r broses.

### 1 Archwilio opsiynau: Ble i ddechrau?

Cam cyntaf gwych yw archwilio beth sydd ar gael. Mae miloedd o gyrsiau ledled y DU, o lwybrau academaidd iawn i raddau creadigol, technegol a galwedigaethol. Anogwch eich plentyn i gadw meddwl agored a chymharu ychydig o wahanol opsiynau. Gwefannau defnyddiol ar gyfer ymchwil:

- Chwilio am Gyrsiau UCAS – y prif le i archwilio pob cwrs prifysgol.
- Hwb Rhieni a Gwarcheidwaid UCAS –canllawiau clir, amserlenni, a fideos wedi'u cynllunio'n benodol ar gyfer teuluoedd.
- Darganfod Prifysgol – data swyddogol y llywodraeth ar foddhad myfyrwyr, ansawdd addysgu a chanlyniadau graddedigion
- Uni Guide a WhatUni – adolygiadau myfyrwyr, dadansoddiadau o gyrsiau a chymharu prifysgolion. https://www.theuniguide.co.uk/ a https://www.whatuni.com/

Wrth gymharu cyrsiau, edrychwch y tu hwnt i'r teitl. Gall dau radd gyda'r un enw gynnwys modiwlau, dulliau addysgu neu gyfleoedd ar gyfer lleoliadau gwahanol iawn.

### 2 Diwrnodau agored: Beth i'w ddisgwyl

Mae diwrnodau agored yn rhoi syniad go iawn i fyfyrwyr a yw cwrs neu brifysgol yn "teimlo'n iawn".



## Rebecca Williams-French

**Teitl y swydd:**
Cynghorydd Gyrfa

**Ysgol neu goleg cysylltiedig:**
Ysgol Dyffryn Conwy, Llanrwst

**Pryd i fynd?**
Haf a dechrau'r hydref ar gyfer ymweliadau cyntaf; yr hydref a'r gwanwyn ar gyfer rhaglenni diwrnod agored llawn a diwrnodau ar gyfer y myfyrwyr hynny sydd wedi cael cynigion.

**Beth sy'n digwydd?**
Sgyrsiau, teithiau, ymweliadau â llety, a chyfleoedd i gwrdd â staff a myfyrwyr. Mae teithiau rhithiol yn aml ar gael hefyd.

**Awgrym i rieni:**
Anogwch eich plentyn i baratoi cwestiynau - am oriau addysgu, lleoliadau, cefnogaeth a chostau.

### 3 Proses Ymgeisio UCAS

Mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr yn gwneud cais am hyd at bum cwrs drwy UCAS.

**Dyddiadau cau allweddol:**

- **Hydref** – Rhydychen, Caergrawnt, Meddygaeth, Deintyddiaeth, Milfeddygaeth
- **Ionawr** – Prif ddyddiad cau ar gyfer y rhan fwyaf o gyrsiau eraill

Mae ysgolion a cholegau yn aml yn gosod dyddiadau cau mewnol cynharach, felly cadwch lygad allan am y rhain.

## 4 Ysgrifennu datganiad personol cryf

Y datganiad personol yw cyfle eich plentyn i ddangos ei frwdfrydedd dros y pwnc. Nid oes angen iddo fod yn berffaith y tro cyntaf - mae drafftio a myfyrio yn bwysig. Anogwch eich plentyn i wneud y canlynol:

- Egluro pam ei fod eisiau astudio'r pwnc.
- Dangos diddordeb drwy ddarllen ehangach, prosiectau, gwirfoddoli neu brofiadau perthnasol.
- Myfyrio ar sgiliau a enillwyd y tu mewn a thu allan i'r ysgol neu'r coleg..
- Gorffen gyda'r hyn y mae'n gobeithio ei gyflawni neu ei archwilio ymhellach

Gall rhieni gefnogi drwy drafod syniadau, gofyn cwestiynau a'i helpu i aros yn drefnus, ond mae'n bwysig bod yr ysgrifennu'n parhau i fod yn eiddo i'r plentyn ei hunan.

### Materion ariannol

I fyfyrwyr Cymru, daw gwybodaeth am ffioedd dysgu, benthyciadau cynhaliaeth a grantiau gan Gyllid Myfyrwyr Cymru. Mae ad-daliadau'n seiliedig ar incwm a dim ond ar ôl i'r graddedigion ennill dros y trothwy ad-dalu y maent yn dechrau gwneud.

Mae prifysgolion hefyd yn cynnig bwrsariaethau ac ysgoloriaethau, felly mae'n werth archwilio'r rhain yn gynnar.

### Fy syniad terfynol

Mae eich cefnogaeth - gwrando, ei annog a'i helpu i aros yn drefnus, yn chwarae rhan bwysig. P'un a ydyw'n dewis prifysgol, prentisiaeth gradd neu lwybr hollol wahanol, mae yna lawer o ffyrdd i symud ymlaen ar ôl yr ysgol neu'r coleg.

Dymunaf bob llwyddiant i chi a'ch plentyn ym mha bynnag lwybr y bydd yn ei ddewis. Bydded i'r camau nesaf ddod â chyfleoedd, heriau a chyflawniadau newydd. Pob lwc!



# Prentisiaethau

## A ydyw eich plentyn yn meddwl am brentisiaeth?

Mae prentisiaethau yn ffordd wych o ennill cymwysterau wrth weithio ac ennill cyflog.

Mae pedwar math gwahanol o brentisiaethau, pob un yn cynnig gwahanol lefelau:

1. Prentisiaeth sylfaen
2. Prentisiaeth
3. Prentisiaeth lefel uwch
4. Prentisiaeth gradd

Am ragor o wybodaeth am lefelau prentisiaeth ewch i

Lefelau prentisiaeth wedi'u hegluro | Gyrfa Cymru)



## Sut i ddod o hyd i brentisiaeth?

Mae sawl ffordd o ddod o hyd i brentisiaethau gwag, yn cynnwys y canlynol:

- Defnyddiwch ein hofferyn chwilio am brentisiaethau
- Ymchwiliwch cyflogwyr sy'n cynnig prentisiaethau
- Ewch i wefannau cyflogwyr yn uniongyrchol
- Defnyddiwch wefannau swyddi ar-lein i helpu gyda'ch chwiliad
- Ewch i ddigwyddiadau cyflogwyr a diwrnodau agored. Bydd rhai cyflogwyr yn cynnal eu diwrnodau recriwtio agored eu hunain.

## I wneud cais am brentisiaeth, bydd angen y canlynol ar eich plentyn:

- CV a chais wedi'u hysgrifennu'n dda.
- Y cyfarwyddiadau a'r wybodaeth am y broses ymgeisio am brentisiaeth
- Neges e-bost eglurhaol neu lythyr eglurhaol
- Paratoi ar gyfer cyfweliadau ac asesiadau

Gall ein cynghorwyr gyrfa gefnogi eich plentyn wrth wneud cais am brentisiaethau.

# Sut gallwn ni helpu eich plentyn

## Straeon go iawn

### Y sgyrsiau cyntaf

Daeth Daniel ar draws Gyrfa Cymru gyntaf ym Mlwyddyn 9. "Doeddwn i ddim yn hollol siŵr beth i'w wneud, gan fod yna sawl opsiwn lle roeddwn i am fynd," eglurodd. Roedd gan Daniel ddewisiadau pwnc i'w gwneud, ac felly mynychodd un o'r digwyddiadau gyrfaoedd yn yr ysgol. Yma y siaradodd â chynghorydd gyrfa am y tro cyntaf.
"Sgwrs braf oedd hi am ble roeddwn i eisiau mynd a doedd dim byd yn orfodol. Fe wnaethon nhw fy helpu i sylweddoli bod gen i fwy o opsiynau nag oeddwn i wedi sylweddoli," meddai.

### Magu hyder

Wrth i Daniel symud i'w flynyddoedd TGAU, dechreuodd gyfarfod yn rheolaidd â Rhys Roberts, y cynghorydd gyrfa newydd yn ei ysgol. Canolbwyntiodd eu sesiynau ar syniadau gyrfa cynnar.
"Byddem yn sgwrsio'n bennaf am bwysigrwydd adolygu ac yn edrych ar yrfaoedd posibl sydd ar gael. Fe wnaethon ni siarad am gael cynllun wrth gefn pan fo angen.
"Fe wnaeth hynny wella fy hyder yn fawr oherwydd roeddwn i'n gwybod bod gwahanol yrfaoedd ar gael a gwahanol ffyrdd o gyrraedd y nod"
Roedd gan Daniel gynllun bras mewn golwg eisoes i wneud rhywbeth ym maes TG. Ond fe helpodd y cyfarwyddyd a gafodd i feddwl yn fwy realistig am ei gamau nesaf.

### Ailfeddwl am y dyfodol

Erbyn iddo ddechrau astudio ar gyfer ei arholiadau Safon Uwch, dechreuodd Daniel ailystyried ei gynllun gwreiddiol o fynd i'r brifysgol. Drwy fwy o sgyrsiau gyda Rhys, archwiliodd a fyddai prifysgol, prentisiaeth, neu goleg fwyaf addas iddo.
"Yn wreiddiol roeddwn i'n meddwl y byddwn i'n mynd i'r brifysgol, ond sylweddolais i nad hynny fyddai'r opsiwn gorau i mi," meddai. "Mae'n well gen i ddull mwy ymarferol o weithio. Byddai'n well gen i ddechrau arni a gwneud y gwaith"
Gyda'i gilydd, fe wnaethon nhw edrych ar amrywiaeth o brentisiaethau, gan drafod manteision ac anfanteision pob un.



## Stori Daniel

*Gyda chyfarwyddyd gyrfaol wedi'i deilwra, archwiliodd Daniel ei opsiynau, magodd hyder, a sicrhaodd y brentisiaeth ymarferol yr oedd wedi bod yn anelu ati.*

Yn ystod Blwyddyn 12, trefnodd Daniel ei brofiad gwaith ei hun gydag adran TG y cyngor hefyd. Rhoddodd hyn gipolwg go iawn iddo ar y gweithle. Yna daeth cyfle gyda Chyngor Sir Caerfyrddin am brentisiaeth mewn TG. Gan wybod bod Daniel wedi mwynhau ei brofiad gwaith yno, anfonodd Rhys e-bost ymlaen am y cyfle ar unwaith ato. Fe'i cefnogodd hefyd drwy gydol y broses o wneud cais.

### Cyflawni ei nod

Pan gynigiwyd y prentisiaeth i Daniel, dywedodd ei fod yn teimlo ar ben ei ddigon. "Roedd yn deimlad anhygoel. Roedd yn teimlo fel bod y gwaith caled wedi talu ar ei ganfed."
Mae bellach yn cwblhau prentisiaeth TG gyda Chyngor Sir Caerfyrddin lle gall ennill cyflog wrth ddysgu ac mae'n mwynhau pob eiliad. "Rwy'n gweld y gwaith yn dda ac mae'r amgylchedd yn braf hefyd" rhannodd.
Wrth edrych yn ôl, mae Daniel yn dweud bod y gefnogaeth a gafodd wedi gwneud gwahaniaeth enfawr i'w hyder a'i sgiliau cyfathrebu. Fe wnaeth hefyd ei annog i barhau, hyd yn oed pan oedd pethau'n teimlo'n ansicr.
Mae ei gyngor i bobl ifanc eraill sy'n ystyried siarad â chynghorydd gyrfa yn syml:
"Byddwn i'n dweud wrthyn nhw am fynd yno a pheidio byth â rhoi'r gorau iddi."

# Cyflogwyr sy'n cefnogi ysgolion

Fel rhan o'n hymrwymiad i baratoi disgyblion ar gyfer byd gwaith, rydym wrth ein bodd yn rhannu rhai gweithgareddau diweddar a wnaed yn bosibl trwy ein partneriaeth addysg a busnes. Mae'r profiadau hyn yn galluogi dysgwyr i gysylltu â chyflogwyr lleol a chael cipolwg gwerthfawr ar amrywiaeth o ddiwydiannau. Dyma gipolwg ar weithgareddau diweddar ledled Cymru:



## Cyflogwr: Caffi'r Cwt Potio

Mwynhaodd disgyblion Bwyd a Maeth Blwyddyn 9 o Ysgol Uwchradd Fitzalan yng Nghaerdydd ymweliad ysbrydoledig â Chaffi'r Cwt Potio. Yn ystod eu hamser yno, fe wnaethon nhw ddarganfod beth sydd ei angen i weithio ym maes arlwyo, dysgu am dyfu bwyd, gwylio arddangosiadau coginio byw, a hyd yn oed gymryd rhan mewn gweithdai coffi a siocled poeth ymarferol.



## Cyflogwr: Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau (DVLA)

Cafodd disgyblion Blwyddyn 9 o Ysgol Gyfun Treforys yn Abertawe gyfle i archwilio amrywiaeth o yrfaoedd cyffrous yn y DVLA. Roedd yr ymweliad yn cynnwys sesiynau ar hacio moesegol, seiberddiogelwch, deallusrwydd artiffisial, a datblygu meddalwedd, gan arddangos ehangder rolau swyddi modern mewn technoleg.




## Cyflogwyr: Wall Lag, Airbus, Tai ClwydAlyn, Mentera, a Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr

Cymerodd myfyrwyr Blwyddyn 8 yn Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn yn y Fflint ran mewn diwrnod sgiliau. Roedd y digwyddiad hwn yn llawn sesiynau rhyngweithiol a gynlluniwyd i ddangos sut y mae'r chwe maes dysgu, sef y Celfyddydau Mynegiannol, Iechyd a Lles, y Dyniaethau, Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu, Mathemateg a Rhifedd a Gwyddoniaeth a Thechnoleg, yn cysylltu'n uniongyrchol â llwybrau gyrfa yn y dyfodol a byd gwaith.




## Cyflogwr: Severn Screen ac Into Film

Mewn ffair yrfaoedd ddiweddar, dysgodd rhieni a myfyrwyr o Ysgol Gyfun Trefynwy am amrywiaeth o rolau swyddi a phwysigrwydd cynaliadwyedd o fewn y diwydiant celfyddydau creadigol.
Mae'r profiadau byd go iawn, diddorol hyn yn cael effaith wirioneddol ar fyfyrwyr. Maent yn helpu i ddod â dysgu yn yr ystafell ddosbarth yn fyw ac yn ysbrydoli myfyrwyr i weithio tuag at eu nodau gyda chymhelliant a hyder newydd.
Gallwch ddysgu mwy am gyflogwyr sy'n cefnogi ysgolion yma. [Gweithio gydag ysgolion | Gyrfa Cymru]




## Cyflogwr: Safran Seats

Ymwelodd Safran Seats ag Ysgol Trecelyn yn ddiweddar, lle gwnaethon nhw gyflwyniad addysgiadol i fyfyrwyr peirianneg BTEC Blwyddyn 11. Rhoddodd y sesiwn fewnwelediadau gwerthfawr i yrfaoedd mewn peirianneg, gan dynnu sylw at y cymwysterau a'r sgiliau sydd eu hangen i lwyddo yn y sector.

# Trefnwch apwyntiad

**A oeddech chi'n gwybod ein bod ni'n cynorthwyo oedolion hefyd? Mae ein gwasanaeth Cymru'n Gweithio yn darparu ystod eang o gymorth yn cynnwys mynediad i hyfforddiant, uwchsgilio, cyllid, a help gydag ysgrifennu CV a thechnegau cyfweliad.**

**Cymru'n Gweithio**
**Working Wales**

- [Gallwch drefnu apwyntiad gyda chynghorydd gyrfa yma.]
- [Mae ein holl ddigwyddiadau Cymru'n Gweithio i'w gweld yma]

# Cysylltwch â ni:

Gyrfa Cymru
Careers Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

- Gallwch gysylltu â chynghorydd gyrfa yn yr ysgol neu drwy ffonio **0800 028 4844**
- Mae gennym gyfleuster sgwrsio byw Cymru gyfan ar gael drwy **gyfracymru.llyw.cymru**
- Anfonwch neges e-bost i **post@gyrfacymru.llyw.cymru**
- Galwch heibio i un o'n **canolfannau gyrfaoedd**

Dilynwch Gyrfa Cymru ar y cyfryngau cymdeithasol